

Cymun Bendigaid ar Gân

# Dygwyl Fair y Canhwyllau

28 Ionawr 2024 am 9.15am

**Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor**

Saint Deiniol's Cathedral in Bangor

# *Croeso i Gadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.*

Rydych chi'n sefyll rwan lle safodd Deiniol bron i fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn 525, bu iddo gynnull o'i gwmpas gymuned lawn ffydd, gobaith a chariad, gan godi o'i chwmpas ffens gyll—y **bangor** gwreiddiol—iddi'n gysgod ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch chwithau, hefyd, eich cofleidio yma gan yr un ffydd, gobaith a chariad a gyhoeddir gennym heddiw ac sy'n ein cyfareddu o hyd.

# *Yn Cymun hwn...*

**Yn y Cymun hwn byddwn yn cwrdd â Christ mewn bara a gwin, ei Gorff a'i Waed ef gyda ni.**

1 Wrth inni ymgynnull, byddwn yn paratoi ein hunain i gwrdd â Christ trwy gyffesu ein pechodau – y ffyrdd yr ydym wedi galaru Duw yn ein bywydau – ac yn derbyn gollyngdod, sef sicrwydd o faddeuant Duw.

2 Yna rydyn ni'n gwrando ar ddarlleniadau o'r Beibl, gan ganfod yno arweiniad, her, cysur a newydd da gan Dduw. Ymatebwn trwy gyhoeddi ein ffydd yn y Drindod Sanctaidd a chynnig i Dduw ein gweddi dros bawb mewn angen.

3 Yn galon i'n haddoliad heddiw, byddwn yn cymryd bara a gwin, byddwn yn gofyn am fendith gweddnewidiol Duw arnynt, yn torri'r bara, ac – fel aelodau o Gorff toredig, trwsiedig Crist – byddwn yn Cymuno.

4 Daw ein haddoliad i ben wrth inni dderbyn bendith Duw, yn gynhaliaeth inni wrth ymadael.

Waeth pa mor bell yn ôl y gwnaethoch hynny ddiwethaf, mae croeso i chi Gymuno yma heddiw. Os hoffech chi Gymuno am y tro cyntaf, neu gael eich Bedyddio, siaradwch ag aelod o dîm yr Gadeirlan.

Ceir ffydd, gobaith a chariad yma i bawb.

## Addoli gyda ni heddiw

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys popeth a ddywedir ac a genir yn ystod ein haddoliad heddiw. Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrio yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo. Fodd bynnag, nid darllen neu arsylwi ydi addoli – ond gweithgaredd, a ninnau'n cymryd rhan, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynnull gyda ni ac, y tu hwnt i hynny, ochr yn ochr â llu'r nef i gyd. Dyrchefwch, felly, eich llygaid; sylwch ar liw, golau, sain, symudiad a harddwch; codwch eich llais; cyfranogwch yn yr hyn a fydd yn eich gweddnewid, o roi iddo'r cyfle.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Darperir cyfieithiadau o ieithoedd tramor. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✠. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip coch**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

## Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copïau print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Os oes angen waffer heb glwten arnoch (yn cydymffurfio â'r gofyniad canonaidd am 20 rhan o glwten fesul miliwn), rhowch wybod i stiward.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

## Plant a theuluoedd ifanc

Mae's gweithgareddau a chrefftau arferol dan ofal staff yng Nghapel Mair yn cymryd hoe dros Sul olaf ym mis Rhagfyr a dau Sul cyntaf mis Ionawr. Mae bagiau gweithgaredd i blant ifanc ar gael gan y Stiwardiaid; ac mae croeso mawr i blant ifanc, yng nghwmni rhiant neu warcheidwad, ddefnyddio Capel Man fel man ymneilltuo yn ystod y Cymun Bendigaid ar Gân.

## O'r Ddarllenfa a Buchedd Bangor

Pob wythnos, anfonir ebost **O'r Ddarllenfa** at danysgrifwyr gyda hysbysiadau ynghyd â delweddau wythnosol o fywyd y Gadeirlan a'r Ardal Weinidogaeth. Os nad ydych chi eisoes yn danysgrifiwr, dilynwch y cod QR, neu ewch i **cadeirlan.eglwysyngnghymru.org.uk/Darllenfa/**

**Buchedd Bangor** yw ein cylchgrawn rheolaidd, sy'n cynnig cymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd. Mynnwch gopi heddiw, neu ddilynwch y cod QR i ddarllen arlein.

**Buchedd Bangor**

**O'r Ddarllenfa**
**From the Lectern**

# *Trefn y gwasanaeth*

Wedi'r hysbysiadau, codwn ar ein traed ar ganiad y gloch

## *Cynnull*

### Emyn



**Iesu, Geidwad bendigedig,**
**ffrind yr egwan a'r methedig,**
**tyner ydwyt a charedig;**
**rho dy ras yn nerth i ni.**

**Iesu, buost gynt yn faban**
**yn y llety tlawd, anniddan;**
**Brenin nef a daear weithian,**
**dirion Arglwydd, ydwyt ti.**

**Iesu, drosom buost farw**
**ar y croesbren creulon, garw:**
**dirfawr werth yr aberth hwnnw**
**egyr byrth y nef i ni.**

**Iesu, gwyddost ein meddyliau,**
**ein llawenydd a'n gofidiau;**
**rho dy ras i'n tywys ninnau**
**i'th wirionedd sanctaidd di.**

**Iesu da, bydd di'n arweinydd,**
**hwyr a bore, inni beunydd;**
**ac os daw tymhestlog dywydd**
**rho dy ras yn nerth i ni.**

**Geiriau**
Percy Dearmer (1867-1936)
**Cyfieithiad**
John Thomas Jones (1894-1875)
**Cerddoriaeth | "Quem Pastores"**
Carol Almaenaidd o'r 14eg ganrif

Parhawn ar ein traed tan ddiwedd y Weddi Gasgl

## Cyfarchiad

✠ Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.
**Amen.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.
**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

"O Dduw, yr ydym wedi portreadu dy ffyddlondeb yng nghanol dy deml."

## Cyffes

Gan gynnull i ddathlu'r Cymun Bendigaid er gogoniant i Dduw, ymbaratown gan gyffesu ein pechodau,

ni sydd yn dy goflaid, O Dduw gyda ni,
ond sy'n methu cyd-fyw â'n gilydd;

ni sy'n moli dy gariad diderfyn, O Dduw gyda ni,
ond sy'n syllu'n ddidrugaredd ar friw ac anghyfiawnder;

ni sy'n hiraethu am dy ddyfod i'n calonnau, O Dduw gyda ni,
ond yn amddifadu'n dyheu, ddaw'n llugoer at y rhodd.

Dad nefol,
**yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,**
**a heb wneud yr hyn a ddylem.**
**Mae'n wir ddrwg gennym,**
**ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.**
**Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,**
**maddeua inni'r cwbl a aeth heibio**
**ac arwain ni yn ei ffordd ef**
**i gerdded fel plant y goleuni.**
**Amen.**

Yr hollalluog Dduw a drugarhao wrthych,
✠ maddau ichwi a'ch rhyddhau o bechod,
a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol.
**Amen.**

Parhawn ar ein traed

## Gloria in excelsis Deo

Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd i'r rhai sydd wrth ei fodd. Moliannwn di, bendithiwn di, addolwn di, gogoneddwn di, diolchwn i ti am dy fawr ogoniant. Arglwydd Dduw, Frenin nefol, Dduw Dad Hollalluog. O Arglwydd, yr Unig Fab, Iesu Grist; O Arglwydd Dduw, Oen Duw, Fab y Tad, sy'n dwyn ymaith bechod y byd, trugarha wrthym; tydi sy'n eistedd ar ddeheulaw Duw Dad, derbyn ein gweddi. Oherwydd ti yn unig sy'n Sanctaidd; ti yn unig yw'r Arglwydd; ti yn unig, O Grist, gyda'r Ysbryd Glân, sydd Oruchaf yng ngogoniant Duw Dad. Amen.

**Cerddoriaeth**
**Cymun Bangor**, Gareth Glyn

Parhawn ar ein traed

## Gweddi Gasgl

Gweddïwn.

Hollalluog a byth fywiol Dduw, megis ar y dydd hwn y cyflwynwyd dy unig-anedig Fab yn y Deml yn sylwedd ein cnawd, erfyniwn yn ostyngedig ar i'th Fawredd felly ein cyflwyno ninnau â chalonnau pur a glân; trwy'r un Iesu Grist ein Gwaredwr.
**Amen.**

# *Gair*

## Salmyddiaeth



℣ Mawr yw Duw a theilwng iawn o fawl.

℟ **Mawr yw Duw a theilwng iawn o fawl.**

Mawr yw'r Sanctaidd Un a theilwng iawn o fawl yn ninas ein Duw, y mynydd sanctaidd.

Teg o uchder, llawenydd yr holl ddaear, yw Mynydd Seion, ar lechweddau'r Gogledd, dyma ddinas y Brenin Mawr.

Oddi mewn i'w cheyrydd y mae Duw iddi'n amddiffynfa.

℟ **Mawr yw Duw a theilwng iawn o fawl.**

O Dduw, yr ydym wedi portreadu dy ffyddlondeb yng nghanol dy deml.

Fel y mae dy enw, O Dduw, felly y mae dy fawl yn ymestyn hyd derfynau'r ddaear. Y mae dy ddeheulaw'n llawn o gyfiawnder;

bydded i Fynydd Seion lawenhau. Bydded i drefi Jwda orfoleddu oherwydd dy farnedigaethau.

℟ **Mawr yw Duw a theilwng iawn o fawl.**

**Salm 48:1-3, 9-11**
**Cerddoriaeth**
Simon Ogdon, ar ôl Edward Elgar (1857-1934)

## Darlleniad

Darlleniad o Lyfr y Proffwyd Haggai.

Dyma’r hyn a ddywed y Sanctadd Un: “’A adawyd un yn eich plith a welodd y ty hwn yn ei ogoniant cyntaf? Sut yr ydych chwi yn ei weld yn awr? Onid megis dim yn eich golwg? Yn awr, ymgryfha, Sorobabel,’” medd y Bywiol Un, “’ac ymgryfha, Josua fab Josedec, yr archoffeiriad, ac ymgryfhewch, holl bobl y tir,’” medd y Bythol Un. “’Gweithiwch, oherwydd yr wyf fi gyda chwi,’” medd Duw’r Lluoedd, “’yn unol â’r addewid a wneuthum i chwi pan ddaethoch allan o’r Aifft. Y mae fy ysbryd yn aros yn eich plith; peidiwch ag ofni.’” Oherwydd fel hyn y dywed Duw’r Lluoedd: “Unwaith eto, ymhen ychydig, yr wyf am ysgwyd y nefoedd a’r ddaear, y môr a’r sychdir, ac ysgydwaf hefyd yr holl genhedloedd; daw trysor yr holl genhedloedd i mewn, a llanwaf y ty hwn â gogoniant,” medd Duw y Lluoedd. “Eiddof fi yr arian a’r aur,” medd Duw’r Lluoedd. “Bydd gogoniant y ty diwethaf hwn yn fwy na’r cyntaf,” medd Duw’r Lluoedd; “ac yn y lle hwn rhof heddwch,” medd Duw’r Lluoedd.

Clywch air bywyd i’n byd.
**Diolch a fo i Dduw.**

**Haggai 2:3-9**

Codwn ar ein traed, gan droi i wynebu Llyfr yr Efengylau yng Nghorff yr Eglwys

## Efengyl



℣ Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. ℟ **Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.** ℣ Yr wyf am ysgwyd y nefoedd a’r ddaear, y môr a’r sychdir, a llanwaf y tŷ hwn â gogoniant. ℟ **Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.** ℣ Goleuni i fod yn ddatguddiad i’r Cenhedloedd ac yn ogoniant i’th bobl Israel. ℟ **Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.
**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✠ Sant Luc.
**Gogoniant i ti, O Grist.**

Bryd hynny: Pan ddaeth amser eu puredigaeth yn ôl Cyfraith Moses, cymerodd y rheini Iesu ag ef i fyny i Gaersalem i'w gyflwyno i Dduw, yn unol â'r hyn sydd wedi ei ysgrifennu yng Nghyfraith Duw: "Pob gwryw cyntafanedig, fe'i gelwir yn sanctaidd i Dduw"; ac i roi offrwm yn unol â'r hyn sydd wedi ei ddweud yng Nghyfraith Duw: "Pâr o durturod neu ddau gyw colomen." Yn awr yr oedd dyn yng Nghaersalem o'r enw Simeon; dyn cyfiawn a duwiol oedd hwn, yn disgwyl am ddiddanwch Israel; ac yr oedd yr Ysbryd Glân arno. Yr oedd wedi cael datguddiad gan yr Ysbryd Glân na welai farwolaeth cyn gweld Sanct Duw, y Meseia. Daeth i'r deml dan arweiniad yr Ysbryd; a phan ddaeth y rhieni â'r plentyn Iesu i mewn, i wneud ynglyn ag ef yn unol ag arfer y Gyfraith, cymerodd Simeon ef i'w freichiau a bendithiodd Dduw gan ddweud: "Yn awr yr wyt yn gollwng dy was yn rhydd, O Sanctaidd Un, mewn tangnefedd yn unol â'th air; oherwydd y mae fy llygaid wedi gweld dy iachawdwriaeth, a ddarperaist yng ngwydd yr holl bobloedd: goleuni i fod yn ddatguddiad i'r Cenhedloedd ac yn ogoniant i'th bobl Israel." Yr oedd ei dad a'i fam yn rhyfeddu at y pethau oedd yn cael eu dweud amdano. Yna bendithiodd Simeon hwy, a dywedodd wrth Fair ei fam, "Wele, gosodwyd hwn er cwymp a chyfodiad llawer yn Israel, ac i fod yn arwydd a wrthwynebir; a thithau, trywenir dy enaid di gan gleddyf; felly y datguddir meddyliau calonnau lawer." Yr oedd proffwydes hefyd, Anna merch Phanuel o lwyth Aser. Yr oedd hon yn oedrannus iawn, wedi byw saith mlynedd gyda'i gŵr ar ôl priodi, ac wedi parhau'n weddw nes ei bod yn awr yn bedair a phedwar ugain oed. Ni byddai byth yn ymadael â'r deml, ond yn addoli gan ymprydio a gweddïo ddydd a nos. A'r awr honno safodd hi gerllaw a moli Duw, a llefaru am y plentyn wrth bawb oedd yn disgwyl rhyddhad Caersalem.

Dyma Efengyl ein Gwaredwr.
**Moliant i ti, O Grist.**

**Luc 2:22-38**

Eisteddwn ar gychwyn y bregeth

## Pregeth yn y gyfres "Canys fy llygaid a welsant"
### Tomos o Acwin

Llewyrchu wna'r saint. Roedd eu buchedd yn olau'n eu dydd; yn eu hesiampl gwelwn gyfiawnder a sancteiddrwydd yn gliriach; mae eu presenoldeb yn awr, ym mynwes Dduw, yn goleuo i ni ffyrdd tragwyddoldeb. Wrth wraidd eu hysbrydoliaeth ddadlennol y mae iddynt weld fel ninnau, trwy lygaid meidrol; ac o blith bywydau tebyg iawn i'n bywydau ni y bu i'r rhain gael cip ar Oleuni Crist. Yr Adfent a'r Nadolig hwn, deuir â'r seintiau a ddathlwn yn ystod yr wythnos yn y Gadeirlan ac Eglwys y Groes i mewn yn rhan o'n haddoliad ar y Sul. Fe'n gwahoddir yn y gyfres bregethu hon i weld yr Adfent a'r Nadolig trwy eu llygaid hwn, er mwyn i ni, fel y gwnaethant hwythau, weld y Crist ymgnawdoledig yn ein mysg.

**Yr Is-Ddeon**

Ar derfyn y bregeth, codwn ar ein traed

## Credo

Ar y cyd, gadewch inni gadarnhau ein ffydd.

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,**
**a greodd bopeth sydd.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Fab Iesu Grist,**
**a brynodd ddynolryw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Ysbryd Glân,**
**sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,**
**✠ Dad, Mab ac Ysbryd Glân.**
**Amen.**

## Ymbiliau

Gyda'n holl galon a'n holl feddwl gweddïwn ar Dduw.

Eisteddwn neu benliniwn

Ym Methlehem y gwnaed y Gair yn gnawd. Gofynnwn i Dduw fendithio pawb sy'n ceisio sancteiddrwydd Crist y dyddiau hyn, ac i gynnal gweinidogaeth ein Heglwys, ein Hesgob, Dapar-Esgob Enlli a holl bob Dduw yn y fangre hon wrth gyhoeddi dirgeledd bendigaid Crist.

℣ O Dduw, yn dy drugaredd,
℟ **Gwrando ein gweddi.**

Ym Methlehem, canodd yr angylion am dangnefedd ar ddaearlawr. Gofynnwn i Dduw fendithio pawb fu'n dyheu am gyfiawnder a heddwch y Nadolig hwn, yn enwedig pobl ddioddefus Gaza, Israel ac Wcráin.

℣ O Dduw, yn dy drugaredd,
℟ **Gwrando ein gweddi.**

Ym Methlehem, daeth Duw i'n daear yn blentyn diymadferth. Gofynnwn i Dduw fendithio pawb sydd mewn angen, poen neu gyfyngder y Nadolig hwn. O'n cymuned ni, gweddïwn yn arbennig dros [...] .

℣ O Dduw, yn dy drugaredd,
℟ **Gwrando ein gweddi.**

Ym Methlehem y disgynodd y nef i'r ddaear, ac y cyfodwyd y ddaear i'r nefolion. Gofynnwn i Dduw gofleidio pawb a fu farw; gan weddïo o'n cymuned ni dros [...] a fu farw'n ddiweddar; a thros [...] y cedwir eu gŵyl goffa'r dyddiau hyn.

℣ Gorffwys tragwyddol dyro iddynt, O Dduw.
℟ **A llewyrched goleuni gwastadol arnynt.**
℣ ✠ Gorffwysed hwy mewn tangnefedd.
℟ **A chyfodi mewn gogoniant.**

Y Nadolig hwn, dathlwn enedigaeth Crist ym Methlehem ers talwm. Gofynnwn i Dduw agor ein calonnau, er mwyn i Grist hefyd gael ei eni ynom heddiw. Yng nghwmni Mair Mam Duw, Deiniol, Tomos, Siarl, Blasiws, Seiriol, Cadfan a holl Saint Enlli, a hwythau'n gyfeillion i Grist, cyd-weddïwn:

℣ Dad trugarog,
℟ **Derbyn y gweddïau hyn**
**er mwyn dy Fab, ein Gwaredwr Iesu Grist.**
**Amen.**

*Codwn ar ein traed, a gwneir Casgliad yn ystod yr emyn*

# Cymun

## Emyn



Goleuni'r byd yw Crist,
Tywysog ein hachubiaeth,
y seren fore yw
a gwawr ein gwaredigaeth.
Ein gobaith ydyw ef,
perffeithydd mawr ein ffydd,
diddarfod gariad yw
sy'n troi pob nos yn ddydd.

Ein heddwch ni yw Crist,
fe greodd un ddynoliaeth,
a chwalodd drwy ei gnawd
ganolfur o elyniaeth.
Nawr drwyddo at y Tad
mae ffordd i bawb i ddod;
aelodau teulu Duw
sy'n cyd-ddyrchafu'i glod.

Ein bywyd ni yw Crist,
mae'n Arglwydd ar farwolaeth;
gollynga ni yn rhydd
o rwymau llygredigaeth.
Dyrcahfwn enw'r Oen,
rhown iddo newydd gân;
gogoniant fo i'r Tad
a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

**Geiriau**
George Wallace Briggs (1875-1959)
**Efelychiad**
Dyfnallt Morgan (1917-1994)
**Cerddoriaeth | "Nun Danket"**
Johann Crüger (1598-1662)

Parhawn ar ein traed tan y rhannwn y Tangnefedd

## Offrwm

Deuwn i'r fangre hon â'r bara sy'n gynhaliaeth.
**Fe ddaw inni'n fara'r bywyd.**

Deuwn i'r fangre hon â'r gwin sy'n mwyneiddio.
**Fe ddaw inni'n waed einioes y byd.**

## Gweddi Ewcharistaidd

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.
**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Dyrchefwch eich calonnau.
**Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.**

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.
**Iawn yw rhoi ein diolch a'n clod.**

Iawn yn wir, ein dyletswydd a'n llawenydd bob amser ac ym mhob lle, yw diolch i ti, Dad Sanctaidd, hollalluog a bythfywiol Dduw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Sy'n rhannu dy ogoniant tragwyddol ac a gyflwynwyd yn y Deml. Datguddiwyd ef gan yr Ysbryd yn ogoniant Israel fel y caiff yr holl bobl oleuni'r byd ynddo ef.

Felly, gyda llu'r angylion a holl gwmpeini'r nef, cyhoeddwn ogoniant dy enw ac ymuno â hwy yn eu hemyn diderfyn o fawl:

Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd, Duw gallu a nerth, nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant. Hosanna yn y goruchaf.

✠ Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn Enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf.

**Cerddoriaeth**
**Cymun Bangor**, Gareth Glyn

Parhawn ar ein traed

Pob moliant a diolch i ti, y gwir a'r bywiol Dduw, Crëwr pob peth, Rhoddwr bywyd. Lluniaist ni ar dy ddelw dy hun, ond yr ydym ni wedi difwyno'r ddelw honno a syrthio'n brin o'th ogoniant. Rhoddwn ddiolch i ti am anfon dy Fab i rannu ein bywyd ni; fe'i hildiaist i farwolaeth fel y câi'r byd ei achub, a'i atgyfodi oddi wrth y meirw fel y bo i ni fyw ynddo ef, ac yntau ynom ninnau.

Sancteiddia â'th Ysbryd y bara hwn a'r gwin hwn, dy roddion inni, fel y bônt i ni yn gorff a gwaed ein Hiachawdwr, Iesu Grist.

Y nos y bradychwyd ef, cymerodd fara ac, wedi rhoi diolch, fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud, Cymerwch, bwytewch; hwn yw fy nghorff a roddir drosoch: gwnewch hyn er cof amdanaf. ✠

Yr un modd ar ôl swper cymerodd y cwpan, ac, wedi rhoi diolch, fe'i rhoddodd iddynt, gan ddweud, Yfwch o hwn bawb, oherwydd hwn yw fy ngwaed o'r cyfamod newydd a dywelltir drosoch a thros lawer er maddeuant pechodau: gwnewch hyn bob tro yr yfwch ef er cof amdanaf. ✠

Cyhoeddwn ddirgeledd y ffydd.

**Bu farw Crist.**
**Atgyfododd Crist.**
**Daw Crist mewn gogoniant.**

Fel y gorchmynnodd ef inni, O Dad, yr ydym yn cofio Iesu Grist, dy Fab. Gan gyhoeddi ei farwolaeth fuddugoliaethus, a chan ymlawenhau yn ei atgyfodiad, a disgwyl iddo ddod mewn gogoniant, deuwn â'r bara hwn a'r cwpan hwn i ti. Derbyn ein haberth o ddiolch a moliant.

Adfer ac adfywia dy holl bobl, adnewydda ni a phawb y gweddïwn trostynt â'th ras a'th ✠ fendith nefol a derbyn ni yn y diwedd gyda'th holl saint i'r llawenydd diderfyn hwnnw a addawyd inni gan dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist.

Trwyddo ef, gydag ef, ynddo ef, yn undod yr Ysbryd Glân, eiddot ti, Dad hollalluog, yw pob anrhydedd a gogoniant, yn oes oesoedd.
✠ **Amen.**

*Parhawn ar ein traed*

## Gweddi'r Arglwydd

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddïwn yn hyderus:

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw, deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.**

## Tangnefedd

Yn dy eni di, O Dduw, aileniir y byd;
dy gorff toredig yn gyflawn
yn adnewyddiad dy greadigaeth.

Tangnefedd y Bythol Dduw a fo gyda chwi bob amser.
**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Rhannwn arwydd o Dangnefedd.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd; yna penliniwn neu eisteddwn

## Torri

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym.
Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym.
Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: dyro inni dangnefedd.

**Cerddoriaeth**
**Cymun Bangor**, Gareth Glyn

## Cymuno

✠ Iesu yw Oen Duw sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd.
Gwyn eu byd y rhai a elwir i'w swper.
**Waredwr, nid wyf yn deilwng i'th dderbyn,**
**ond dywed y gair a chaf fy iacháu.**

Deuwn i Gymuno, gan ddilyn cyfarwyddyd y Stiwardiaid, o'r Afrlladen Sagrafennol ac, os y dymunwn, o'r Gwerthfawr Waed

## Motét

Nunc dimittis servum tuum, Domine, secundum verbum tuum in pace: Quia viderunt oculi mei salutare tuum Quod parasti ante faciem omnium populorum: Lumen ad revelationem gentium, et gloriam plebis tuae Israel.

**Cyfieithiad**
*Yr awr hon, Arglwydd, y gollyngi dy was mewn tangnefedd yn ôl dy air. Canys fy llygaid a welodd dy iachawdwriaeth. Yr hon a baratoaist gerbron wyneb yr holl bobl. I fod yn oleuni i oleuo'r cenhedloedd; ac yn ogoniant i'th bobl Israel.*

**Geiriau**
Nunc dimittis; Luc 2
**Cerddoriaeth**
Gustav Holst (1874-1934)

Ar ôl i bawb Gymuno, safwn i ganu'r emyn

## Emyn



**Nawr, Waredwr, nawr, fy Ngheidwad,**
**nawr, Sanctaidd Dduw,**
**gwêl fy llygaid, gwêl fy enaid**
**wir olau gwiw;**
**ymadawed gofid oesau,**
**ymadawed hir hiraethau,**
**ymadawed t'wylwch; golau**
**Crist nawr sydd fyw.**

**I Dduw Dad y bo gogoniant,**
**gwawr, tarddiad bod;**

**i Dduw'r Mab, ein peraidd foliant,**
**Gair, beunydd fodd;**
**i Dduw'r Ysbryd Glân, ein haberth**
**cu o fawl, ein machlud perffaith,**
**Drindod brydferth, gydnerth, gyfwerth**
**hyd oesau'n clod.**

**Geiriau**
Nunc dimittis; Luc 2
**Efelychiad mydryddol**
Siôn B. E. Rhys Evans
**Cerddoriaeth | "Ar Hyd y Nos"**
Alaw werin Gymreig

# *Bendithio canhwyllau ac ymadael*

Mae'n cymorth yn enw Duw.
**A wnaeth nef a daear.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.
**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

✠ Bendithia, O Dduw, y canhwyllau hyn – y rhai sydd ynghyn i oleuo byrddau allor y deml gysegredig hon i'th ogoniant, a'r rhai a neilltüir ar gyfer y flwyddyn o'n blaen i'w cynnau feunydd gan weddïau pererinion; fel y cyrhaeddo golau gwan ein gobeithion a'n hiraeth y deml dragwyddol honno lle'r wyt ti'n byw ac yn teyrnasu, ac fel y cwmp ar ein llwybrau ninnau belydrau o oleuni tragwyddol dy ysblander i lawenhau ein calonnau ac i ddifa'n hofnau; trwy Iesu Grist, sydd Oleuni'r byd.
**Amen.**

Bydded i Grist, a gasglodd yn un bopeth daearol a nefol, trwy gymryd ein cnawd ni, eich llenwi â'i lawenydd a'i dangnefedd; a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân, a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.
**Amen.**

Awn ymaith mewn tangnefedd.
**Yn Enw Crist. Amen.**

Parhawn ar ein traed hyd nes i'r gweinidogion ymadael; yna eisteddwn neu ymadael

# *Hysbys*

## Cysegru Esgob Tyddewi

Mae'n diolch yn fawr i aelodau o deulu'r Gadeirlan a gefnogodd y trefniadau ar gyfer Cysegru Esgob Tyddewi yn y Gadeirlan ddydd Sadwrn diwethaf. O gerddoriaeth newydd wedi ei chyfansoddi gan ein Cyfarwyddwr Cerdd i flodau gogoneddus a drefnwyd gan ein trefnwyr blodau i groeso cynnes ein stiwardiaid, cyfrannodd ymdrechion cynifer o bobl, ynghyd â chefnogaeth aelodau o dîm staff yr esgobaeth, at ddefod fendithiol a dathliad hapus.

## Messiah

Ar drothwy tymor dwys y Grawys, ymunwch â ni am 6.00pm nos Sul 11 Chwefror ar gyfer perfformiad defosiynol o Rannau II a III o'r *Messiah* gan George Frideric Handel.

Mae Rhan II o'r *Messiah* yn adrodd hanes Dioddefaint a marwolaeth Crist, ei Atgyfodiad a'i Ddyrchafael, a lledaeniad cyntaf yr Efengyl, gan arwain at gyhoeddiad gogoneddus o ogoniant Duw yng nghorws yr Haleliwia. Mae Rhan III'n archwiliad cyfrin mewn cân o'r addewid o dragwyddoldeb: "Mi wn fod fy Mhrynwr byw," medd y soprano ar ei gychwyn; "Teilwng yw'r Oen" yw canmoliaeth y Corws ar ei ddiwedd.

Bydd y gerddoriaeth yn cael ei chanu gan Gôr y Gadeirlan, gyda'r unawdwyr ar gyfer yr ariâu hardd wed ei dwyn o'i rengoedd; a bydd y perfformiad yn cael ei arwain gan ein Cyfarwyddwr Cerdd, Joe Cooper.

Mae tocynnau wrth y drws ac ar werth ar ddiwedd gwasanaethau'r Sul yn £12 (£5 consesiynau myfyrwyr).

## Dydd Mercher y Lludw

Mae Dydd Mercher y Lludw, y diwrnod sy'n nodi dechrau'r Grawys, i'w gadw eleni ar 14 Chwefror. Dyma atgof da y dylem ni, yng Nghymru, ddathlu cariadon ar Ddiwrnod Santes Dwynwen, 25 Ionawr, gan fod i Ddydd San Ffolant berwyl gwell eleni. Ar Ddydd Mercher y Lludw offrymir y Cymun Bendigaid ar Gân ag Arddodi Lludw yn ddwyieithog yn y Gadeirlan am 12.30pm a hefyd am 6.00pm. Rhowch flaenoriaeth i'ch presenoldeb yn un o'r dathliadau hyn yn eich dyddiadur, fel y gall eich hymrwymiad i'r Garawys ddechrau'n fyfyriol, yn benydiol, yn sagrafenaidd ac yn brydferth.

## Nosweithiau Mercher eraill yn ystod y Grawyd

Mae'r Grawys yn dymor wedi ei nodi nid yn unig gan ymwrthod a chan haelioni, ond hefyd gan astudrwydd mewn gweddi a myfyrdod. Cynigir gweithgareddau ar nos Fercher yn ystod y Grawys eleni fel offrwm i'n cyfoethogi'n ysbrydol. Bydd ein cwrs astudio Grawys, ar-lein ar Zoom am 6.00pm ar nosweithiau Mercher 21 Chwefror, 6 Mawrth a'r 20 Mawrth yn archwilio cysylltiadau Cristnogol-Iddewig ar adeg dyngedfennol mewn dealltwriaeth rhyng-ffydd. Bydd y sesiynau hyn yn cael eu harwain gan y sefydliad rhyng-ffydd nodedig, Cyngor Cristnogion ac Iddewon. Bydd ein cyfres o bregethau Grawys, sy'n canolbwyntio ar Gredo Nicea, yn cael ei harchwilio mewn sesiwn ar-lein arbennig ar Zoom am 6.00pm ar 28 Chwefror. Rydym wrth ein bodd mai'r Dr Robin Ward, Prifathro Tŷ San Steffan, Rhydychen, fydd yn arwain y sesiwn hon. Bydd y nos Fercher arall yn ystod Grawys, 13 Mawrth, yn cael ei chysegru i'n Cymun ar Gân misol newydd dros y Meirw, a gynhelir yn y Gangell am 5.30pm, a lle bydd gosodiad Fauré o'r Requiem yn cael ei ganu. Eto, rhowch flaenoriaeth i'ch presenoldeb yn eich dyddiaduron, er mwyn cyfoethogi'r Grawys yn ysbrydol ac yn weddigar.

# Yr wythnos

## Heddiw | Today

**3.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses, Tomkins; Gwasanaeth Hwyrol y G leiaf | Evening Service in G minor, Purcell; When to the temple Mary went, Eccard

## Dydd Llun | Monday | Tomos o Acwin | Thomas Aquinas

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**5.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

## Dydd Mawrth | Tuesday | Siarl | Charles

**9.30am** Camau Bach

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**5.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

## Dydd Mercher | Wednesday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**5.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

## Dydd Iau | Thursday | Seiriol

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**2.00pm | Eglwys y Groes** Cymun | Eucharist

**5.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

## Dydd Gwener | Friday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## Dydd Sadwrn | Saturday | Blasiws | Blaise

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## 4 Chwefror | Yr Ail Sul cyn y Grawys | Secsagesima
## 4 Feburary | The Second Sunday before Lent | Sexagesima

**8.15am** Holy Eucharist

**9.15am** Cymun Bendigaid ar Gân

Offeren Fer, Elwyn-Edwards; Henffych well, wir gorff, Mozart; Offertoire sur les grand jeux, Couperin

**11.00am** Choral Holy Eucharist

Coronation Mass, Mozart; Ave verum corpus, Mozart; Postlude in C, Smart

**3.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses, Leighton; Gwasanaeth Hwyrol yn C | Evening Service in C, Kelly; The Doctrine of Wisdom, Mathias; Processional, Mathias

# Ein gweddi

**Yn glâf** Simon Smith; Andy; Claire; Rosie; Caren Lewis; Caryl Hughes; Ann Mierie; Joy Levine, priest; John Watkin Jones; Bill Lovelock

**A fu farw'n diweddar** John Hughes; Gill Knight; Glenn; Don; Amanda

**Gŵyl goffa** Carol Evans, offeiriad (28); Harold Owen (31); Sheila Dorothy Ward; Frederick Jones, offeiriad (2); Sioned Ann Jones (3)

## Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

## Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff cynifer o'n gwasanaethau'n eu ffrydio arlein, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar sianel YouTube y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

## Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys rhannau o'r **Drefn ar gyfer y Cymun Bendigaid 2004** hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 2004 Mae'r llithoedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr** (1850) a'r salmyddiaeth Saesneg o **The Saint Helena Breviary** (2019).

## Darlun clawr

Ar y clawr ceir llun llun dyfrlliw a phensil cyfoes o Domos o Acwin gan yr artist, Aodhagain.

# *Cefnogaeth*

**Caiff y fangre sanctaidd hon llawn ffydd, gobaith a chariad, a phopeth sy'n digwydd yma, ei chynnal gan eich haelioni chi.**

1 I roi rhodd ar-lein ar eich ffôn heddiw, sganiwch y cod QR isod.

2 Defnyddiwch ein peiriant rhoi digyswllt yng nghefn Corff yr Eglwys i dapio cerdyn neu ffôn.

**Trwy roi rhodd, byddwch yn ein helpu i barhau â'n gwaith hanfodol.**

## Eglwys Gadeiriol ac Archesgobol Deiniol Sant ym Mangor

## The Cathedral & Metropolitical Church of Saint Deiniol in Bangor

Esgob ac Archesgob Cymru
Bishop & Archbishop of Wales
**Y Parchedicaf | The Most Revd Andrew John**

Is-Ddeon | Sub-Dean
**Canon Siôn B. E. Rhys Evans**
sionrhysevans@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon dros Fywyd Cynulleidfaol
Canon for Congregational Life
**Canon Tracy Jones**
tracyjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Caplan Prifysgol a Chymuned
University & Community Chaplain
**Y Parchg | The Revd Neville Naidoo**
nevillenaidoo@eglwysyngnghymru.org.uk

Is-Ganon | Minor Canon
**Y Parchg | The Revd Josie Godfrey**
josiegodfrey@eglwysyngnghymru.org.uk

Cyfarwyddwr Cerdd | Director of Music
**Joe Cooper**
joecooper@eglwysyngnghymru.org.uk

Organydd | Organist
**Martin Brown**
martinbrown@eglwysyngnghymru.org.uk

Ail-gantor | Succentor
**Sam Jones**
samjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cydlynydd Gweinidogaeth Deulu
Family Ministry Coordinator
**Yasmin de Rosa**
yasminderosa@eglwysyngnghymru.org.uk

Clochydd | Sacrist
**Aine Guy**
aineguy@eglwysyngnghymru.org.uk

Trysorydd | Treasurer
**Kelly Edwards**
kellyedwards@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Secundus a Darpar Esgob Enlli
Canon Secundus & Bishop Dsignate of Bardsey
**Canon David Thomas Morris**
davidmorris@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Emeritws | Canon Emeritus
**Canon Angela Williams**

Aelodau o Goleg Offeiriadol y Gadeirlan
Members of the Cathedral's College of Priests
**Y Parchg Ddr | The Revd Dr John Prysor-Jones, y Tra Pharchg Athro | the Very Revd Prof. Gordon McPhate, y Parchg | the Revd Peter Kaye**

Darllenydd | Reader
**Elma Taylor**

Caplaniaid Anna | Anna Chaplains
**Jane Coutts, Anne Eyre, Elma Taylor**

Pensaer y Gadeirlan | Cathedral Architect
**Simon Malam**

Rhif elusen | Charity number 1158340